

Tribiwnlys Adolygu
Iechyd Meddwl Cymru

Mental Health Review
Tribunal for Wales

Canllaw Cynnwys a Diwyg Adroddiadau

Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru
Llawr 2, Adeiladau'r Goron
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 0300 025 5328
Ffacs: 0300 025 7331
E-bost: mhrt@wales.gsi.gov.uk

Yr hyn y mae'n rhaid i'r datganiad ac adroddiadau ei gynnwys

Mae Rheolau 2008 Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru yn amlinellu'r hyn sy'n rhaid ei gynnwys mewn datganiadau ac adroddiadau. Arweiniad yn unig yw'r llyfryn hwn a dylech gyfeirio at y Rheolau wrth baratoi unrhyw ddatganiad neu adroddiadau.

Mae ein llyfryn canllaw MHRTW-10 ([dolen i dudalen 1.4](#)) yn cynnwys gwybodaeth ar ba wybodaeth sydd ei hangen yn ôl math o achos.

Mae'r canllaw hwn yn edrych ar bum math o achos:

Cleifion Mewnol
Cleifion Gwarcheidiaeth
Cleifion Cymunedol
Cleifion wedi'u Rhyddhau'n Amodol
Cleifion o dan 18 oed

Tudalen flaen

Byddai'n fuddiol pe bai tudalen flaen yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth ar natur yr adroddiad, pwy yw gwrthrych yr adroddiad, pwy sydd wedi ei ysgrifennu a dyddiad ei ysgrifennu. Er enghraifft:

- Teitl: [e.e. Seiciatrig, Meddygol, Clinigol/Amgylchiadau Cymdeithasol/Nyrsio/Cynllun Gofal] Adroddiad ar gyfer Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru
- Enw'r Claf
- Dyddiad Geni ac Oedran y Claf
- Adran y Ddeddf
- Man Cadw / Preswyllo
- Diagnosis Perthnasol (os yn hysbys)
- Enw awdur yr adroddiad
- Teitl swydd awdur yr adroddiad
- Manylion cyswllt awdur yr adroddiad

Dylai pob adroddiad gael ei lofnodi a'i ddyddio'n eglur. Dylai pob adroddiad fod yn hunangynhwysol ac ni ddylai ddibynnu ar atodiadau.

Os oes cais am ddiweddariad wedi'i wneud, ni ddylai'r diweddariad ailadrodd gwybodaeth a roddwyd eisoes gan yr awdur, ond dylai'n hytrach gynnwys gwybodaeth newydd yn unig.

Datganiad o wybodaeth (Datganiad Rhan A)

Rhaid i'r datganiad a gyflwynir i'r Tribiwnlys gynnwys yr wybodaeth gyfoes ganlynol:

1. Enw llawn y claf (ac enwau eraill a ddefnyddiwyd yng nghofnodion y claf);
2. Dyddiad geni ac oed y claf;
3. Iaith gyntaf y claf ac, os nad Saesneg, a oes angen cyfieithydd, ac os felly, ym mha iaith;
4. Os yw'r claf yn fyddar a fydd angen cyfieithydd iaith arwyddion neu gyfieithydd cyfnewid;
5. Y cais, gorchymyn neu gyfarwyddyd a wnaethpwyd o dan y Ddeddf y mae trafodion y Tribiwnlys yn ymwneud â hwy a'r dyddiad pan gychwynnodd y cais, gorchymyn neu gyfarwyddyd;
6. Manylion yr awdurdod gwreiddiol ar gyfer cadw neu warcheidiaeth y claf, gan gynnwys y sail statudol am yr awdurdod hwnnw a manylion am unrhyw adnewyddu neu newid i'r awdurdod hwnnw;
7. Mewn achosion lle mae claf wedi cael ei drosglwyddo i ysbyty o dan adrannau 45A, 47 neu 48 y Ddeddf, manylion y Gorchymyn, Cyfarwyddyd neu Awdurdod a oedd yn sail i gadw'r claf mewn caethiwed cyn ei drosglwyddo i ysbyty;
8. Ac eithrio pan fydd claf yn destun gwarcheidiaeth neu ôl-ofal o dan oruchwyliaeth, neu glaf cymunedol, yr ysbyty neu uned ysbyty lle mae'r claf ar hyn o bryd yn agored i gael ei gadw o dan y Ddeddf, a'r ward neu uned lle mae'n cael ei gadw ar y pryd;
9. Os oes amod neu ofyniad wedi'i osod sy'n datgan bod yn rhaid i glaf breswyllo mewn man penodol, manylion am yr amod neu ofyniad a'r cyfeiriad lle mae'n ofynnol bod y claf yn preswyllo;
10. Yn achos claf cymunedol, manylion am unrhyw amod sy'n gysylltiedig â Gorchymyn Triniaeth Gymunedol y claf o dan adran 17B(2) y Ddeddf;
11. Enw Clinigwr Cyfrifol y claf ac ers faint o amser mae'r claf wedi bod o dan ei ofal;
12. Os oes clinigwr cymeradwy arall yn gyfrifol neu wedi bod yn gyfrifol am drin y claf i raddau helaeth yn ddiweddar, enw'r clinigwr hwnnw ac ers faint o amser mae'r claf wedi bod yng ngofal y clinigwr hwnnw;
13. Enw (teitl swydd a chyfeiriad llawn) unrhyw gydlynnydd gofal a benodwyd ar gyfer y claf;
14. Os yw'r claf yn destun gwarcheidiaeth gwarcheidwad preifat, enw a chyfeiriad y gwarcheidwad hwnnw;
15. Os oes Gorchymyn ar Glawr gan Lys Cofnodion Uwch a sefydlwyd gan adran 45(1) Deddf Galluedd Meddyliol 2005, manylion y Gorchymyn hwnnw;

16. Oni bai bod y claf yn gofyn i'r gwrthwyneb, enw a chyfeiriad yr unigolyn sy'n cyflawni swyddogaethau perthynas agosaf y claf;
17. Os oes gan Fwrdd Iechyd Lleol, Ymddiriedolaeth y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, Ymddiriedolaeth Gofal Sylfaenol, Ymddiriedolaeth Sefydledig y GIG, Awdurdod Iechyd Strategol, Gweinidogion Cymru neu'r Ysgrifennydd Gwladol hawl i ryddhau claf o dan ddarpariaethau adran 23 (3) o'r Ddeddf, enw a chyfeiriad y Bwrdd, Ymddiriedolaeth, Awdurdod, Unigolyn neu Unigolion hynny;
18. Yn achos claf sy'n destun ôl-ofal o dan oruchwyliaeth, enw a chyfeiriad yr Awdurdod Gwasanaethau Cymdeithasol Lleol a chorff y GIG a fydd yn gyfrifol am ddarparu ôl-ofal i'r claf o dan adran 117 o'r Ddeddf, neu a fydd yn gyfrifol pan fydd yn gadael yr ysbyty;
19. Enw a chyfeiriad unrhyw unigolyn sy'n gwneud cyfraniad sylweddol at ofal y claf ond nad yw'n gwneud cyfraniad proffesiynol at y gofal hwnnw;
20. Enw a chyfeiriad unrhyw unigolyn arall y mae'r Awdurdod Cyfrifol o'r farn y dylai'r Tribiwnlys gael ei hysbysu ohono.

Adroddiad y Clinigwr Cyfrifol

Rhaid i'r adroddiad hwn fod yn gyfoes ac wedi'i baratoi'n unswydd ar gyfer y Tribiwnlys. Oni bai bod hynny'n anymarferol, dylai'r adroddiad gael ei ysgrifennu neu ei gydlofnodi gan glinigwr cyfrifol y claf:

- Adroddiad clinigol cyfoes, a baratowyd ar gyfer y Tribiwnlys, sy'n cynnwys yr hanes clinigol perthnasol ac adroddiad llawn ar gyflwr meddyliol y claf;
- Dylai'r adroddiad hefyd roi sylw i'r meini prawf statudol sy'n gysylltiedig â'r Adran y mae'r claf yn destun iddi a'r rheswm pam y dibynnir ar unrhyw faen prawf penodol i gyfiawnhau parhau i gadw'r claf o dan yr Adran;

Adroddiadau eraill

Adroddiad amgylchiadau cymdeithasol cyfoes a baratowyd yn unswydd ar gyfer y Tribiwnlys. Dylai gynnwys manylion llawn am y canlynol:

1. Amgylchiadau cartref a theuluol y claf, gan gynnwys barn perthynas agosaf y claf neu'r unigolyn sy'n gweithredu felly;
2. Y cyfleoedd i gael cyflogaeth neu waith a'r cyfleusterau llety a fyddai ar gael i'r claf pe byddai'n cael ei ryddhau;
3. Y cymorth cymunedol a'r cyfleusterau meddygol perthnasol a fyddai ar gael;
4. Amgylchiadau ariannol y claf;
5. Barn yr awdurdod cyfrifol ar ba mor addas yw'r claf i gael ei ryddhau;
6. Os yw darpariaethau Adran 117 o'r Ddeddf yn weithredol yn achos y claf, cynllun ôl-ofal arfaethedig ar gyfer y claf;
7. Unrhyw wybodaeth arall neu sylwadau ar y cais yr hoffai'r awdurdod cyfrifol eu gwneud.

TRIBIWNLYS ADOLYGU IECHYD MEDDWL CYMRU
(e.e. Seiciatrig, Meddygol, Clinigol/Amgylchiadau
Cymdeithasol/Nyrsio/Cynllun Gofal)
(Dileer fel sy'n briodol)

Enw'r Claf:

Dyddiad Geni'r Claf: Oed y Claf

Adran Gyfredol: Dyddiad Cychwyn
Caethiwed

Ysbyty/Cyfeiriad cyfredol (gan
gynnwys cod post):

Diagnosis Perthnasol (os yn
hysbys):

Enw awdur yr adroddiad:

Teitl swydd / swydd awdur yr
adroddiad:

Manylion cyswllt awdur yr
adroddiad:

Dyddiad yr Adroddiad:

Datganiad Rhan A

Enw llawn y Claf
(ac enwau eraill a ddefnyddiwyd yng nghofnodion y claf)

Dyddiad geni'r claf

Oed

Iaith gyntaf y claf

Os nad Saesneg, nodwch a oes angen cyfieithydd, ac os felly, ym mha iaith.

Os yw'r claf yn fyddar a fydd angen cyfieithydd iaith arwyddion neu gyfieithydd cyfnewid;

Y cais, gorchymyn neu gyfarwyddyd a wnaethpwyd o dan y Ddeddf y mae trafodion y Tribiwnlys yn ymwneud â hwy a'r dyddiad pan gychwynnodd y cais, gorchymyn neu gyfarwyddyd;

Dyddiad

Manylion yr awdurdod gwreiddiol ar gyfer cadw neu warcheidiaeth y claf, gan gynnwys y sail statudol am yr awdurdod hwnnw a manylion am unrhyw adnewyddu neu newid i'r awdurdod hwnnw;

Mewn achosion lle mae claf wedi cael ei drosglwyddo i ysbyty o dan adrannau 45A, 47 neu 48 y Ddeddf, manylion y Gorchymyn, Cyfarwyddyd neu Awdurdod a oedd yn sail i gadw'r claf mewn caethiwed cyn ei drosglwyddo i ysbyty;

Ac eithrio pan fydd claf yn destun gwarcheidiaeth neu ôl-ofal o dan oruchwyliaeth, neu glaf cymunedol, yr ysbyty neu uned ysbyty lle mae'r claf ar hyn o bryd yn agored i gael ei gadw o dan y Ddeddf, a'r ward neu uned lle mae'n cael ei gadw ar y pryd;

Os oes amod neu ofyniad wedi'i osod sy'n datgan bod yn rhaid i glaf breswyllo mewn man penodol, manylion am yr amod neu ofyniad a'r cyfeiriad lle mae'n ofynnol bod y claf yn preswyllo;

Yn achos claf cymunedol, manylion am unrhyw amod sy'n gysylltiedig â Gorchymyn Triniaeth Gymunedol y claf o dan adran 17B(2) y Ddeddf;

Enw Clinigwr Cyfrifol y claf

Ers faint o amser mae'r claf wedi bod o dan ei ofal

Os oes clinigwr cymeradwy arall yn gyfrifol neu wedi bod yn gyfrifol am drin y claf i raddau helaeth yn ddiweddar

Enw'r Clinigwr

Ers faint mae'r claf wedi bod o dan ei ofal

Enw Cydlynnydd Gofal a benodwyd i'r claf

Teitl swydd y Cydlynnydd Gofal:

Cyfeiriad Llawn a Chod Post y Cydlynnydd Gofal

Os yw'r claf yn destun gwarcheidiaeth gwarcheidwad preifat

Enw'r gwarcheidwad

Cyfeiriad Llawn a Chod Post y gwarcheidwad

Os oes Gorchymyn ar Glawr gan Lys Cofnodion Uwch a sefydlwyd gan adran 45(1) Deddf Galluedd Meddyliol 2005, manylion y Gorchymyn hwnnw;

Oni bai bod y claf yn gofyn i'r gwrthwyneb, enw a chyfeiriad yr unigolyn sy'n cyflawni swyddogaethau perthynas agosaf y claf

Enw'r perthynas agosaf

Cyfeiriad Llawn a Chod Post y perthynas agosaf

Os oes gan Fwrdd Iechyd Lleol, Ymddiriedolaeth y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, Ymddiriedolaeth Gofal Sylfaenol, Ymddiriedolaeth Sefydledig y GIG, Awdurdod Iechyd Strategol, Gweinidogion Cymru neu'r Ysgrifennydd Gwladol hawl i ryddhau claf o dan ddarpariaethau adran 23 (3) o'r ddeddf, enw a chyfeiriad y Bwrdd, Ymddiriedolaeth, Awdurdod, Unigolyn neu Unigolion hynny

Enw'r Bwrdd, Ymddiriedolaeth, Awdurdod, Unigolyn neu Unigolion

Cyfeiriad Llawn a Chod Post

Yn achos claf sy'n destun ôl-ofal o dan oruchwyliaeth, enw a chyfeiriad yr Awdurdod Gwasanaethau Cymdeithasol Lleol a chorff y GIG a fydd yn gyfrifol am ddarparu ôl-ofal i'r claf o dan adran 117 o'r Ddeddf, neu a fydd yn gyfrifol pan fydd yn gadael yr ysbyty;

Enw'r Corff Gwasanaethau Cymdeithasol

Cyfeiriad Llawn a Chod Post

Enw corff y GIG

Cyfeiriad Llawn a Chod Post

Enw a chyfeiriad unrhyw unigolyn sy'n gwneud cyfraniad sylweddol at ofal y claf ond nad yw'n gwneud cyfraniad proffesiynol at y gofal hwnnw

Enw

Cyfeiriad Llawn a Chod Post

Enw a chyfeiriad unrhyw unigolyn arall y mae'r Awdurdod Cyfrifol o'r farn y dylai'r Tribiwnlys gael ei hysbysu ohono.

Enw

Cyfeiriad Llawn a Chod Post

Llofnod:

Swydd:

Dyddiad:

Adroddiad y Clinigwr Cyfrifol

Adroddiad clinigol cyfoes, dylech gynnwys yr holl hanes clinigol perthnasol ac adroddiad ar gyflwr meddyliol y claf:

Meini prawf statudol sy'n gysylltiedig â'r Adran y mae'r claf yn destun iddi a'r rheswm pam y dibynnir ar unrhyw faen prawf penodol i gyfiawnhau parhau i gadw'r claf o dan yr Adran

Rhaid i'r adroddiad hwn fod yn gyfoes ac wedi'i baratoi'n unswydd ar gyfer y Tribiwnlys. Oni bai bod hynny'n anymarferol, dylai'r adroddiad gael ei ysgrifennu neu ei gydlofnodi gan glinigwr cyfrifol y claf

Llofnod:

Swydd:

Dyddiad:

Adroddiad Amgylchiadau Cymdeithasol

Amgylchiadau cartref a theuluol y claf, gan gynnwys barn perthynas agosaf y claf neu'r unigolyn sy'n gweithredu felly;

Y cyfleoedd i gael cyflogaeth neu waith a'r cyfleusterau llety a fyddai ar gael i'r claf pe byddai'n cael ei ryddhau;

Y Cymorth cymunedol a'r cyfleusterau meddygol perthnasol a fyddai ar gael;

Amgylchiadau ariannol y claf;

Barn yr awdurdod cyfrifol ar ba mor addas yw'r claf i gael ei ryddhau;

Os yw darpariaethau Adran 117 o'r Ddeddf yn weithredol yn achos y claf, cynllun ôl-ofal arfaethedig ar gyfer y claf;

Unrhyw wybodaeth arall neu sylwadau ar y cais yr hoffai'r awdurdod cyfrifol eu gwneud.

Llofnod:

Swydd:

Dyddiad:

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Mae'r Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Mae'r tribiwnlys hefyd yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg neu yn Saesneg.

Gallwch chi gyflwyno ffurflenni, dogfennau a chyflwyno sylwadau ysgrifenedig i'r tribiwnlys yn Gymraeg neu'n Saesneg.